Y Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Mae dinasyddion o Ewrop yn cyfrif am nifer sylweddol o weithlu'r sector bwyd a diod yng Nghymru. Felly, rydym yn annog pob busnes i helpu eu gweithwyr o'r UE i wneud cais i'r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Os ydych yn cyflogi dinasyddion o'r UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu o'r Swistir, gallan nhw a'u teuluoedd wneud cais i **Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE** er mwyn parhau i fyw a gweithio yn y DU ar ôl 30 Mehefin 2021.

Os bydd eu cais yn llwyddiannus, byddant naill ai'n cael statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog, gan ddibynnu ar hyd y cyfnod y maent wedi preswylio'n barhaol yn y DU. Os ydynt wedi bod yn byw yn y DU am 5 mlynedd neu fwy, gallant wneud cais am statws preswylydd sefydlog. Os ydynt wedi bod yn byw yn y DU am lai na 5 mlynedd, gallant wneud cais am statws preswylydd cyn-sefydlog.

Mae Llywodraeth Cymru wedi uno mewn partneriaeth â nifer o wasanaethau i'ch galluogi chi i helpu eich gweithwyr o Ewrop i gael gafael ar y cymorth a allai fod ei angen arnynt i wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a'ch helpu i gadw eich gweithwyr presennol.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys cymorth digidol gyda cheisiadau am statws preswylydd sefydlog neu help gydag ymholiadau sylfaenol ynghylch cymhwysedd oddi wrth Gyngor ar Bopeth. Mae cyngor mewnfudo arbenigol rhad ac am ddim hefyd ar gael ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth, a ddarperir gan gwmni cyfreithiol Newfields Law sy'n arbenigo mewn mewnfudo.

Mae llawer o sefydliadau yng Nghymru yn darparu cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE. Er mwyn cydgysylltu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynghori yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Grŵp Cydgysylltu EUSS Cymru. Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd Newfields Law, Cyngor ar Bopeth a sefydliadau eraill sy'n darparu eu gwasanaethau yng Nghymru.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth ac i gael gafael ar y cymorth a gefnogir gan Lywodraeth Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar wefannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Mae gan ddinasyddion yr UE, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a dinasyddion y Swistir sy'n byw yn y DU ar 31 Rhagfyr 2020, tan 20 Mehefin 2021 i wneud cais i Gynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.